OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 912 (Cy.95) (C.40)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 24 Mawrth 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(3), (4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2004.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig (ac eithrio mewn perthynas ag adran 198).

Dehongli

3.—(1) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**).

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Diwrnodau penodedig

4. 31 Mawrth 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

5. 1 Awst 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Darpariaeth drosiannol — sefydlu neu newid ysgolion meithrin a gynhelir

6. Er bod adran 154 yn dod i rym, ni fydd y paragraffau (aa) a (d) newydd yn is-adran (1) o adran 28 o Ddeddf 1998 yn gymwys lle mae awdurdod addysg lleol yng Nghymru wedi cymryd

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1998 p.31.

penderfyniad cyn 31 Mawrth 2004 i sefydlu ysgol feithrin newydd a gynhelir neu i wneud newid rhagnodedig i ysgol feithrin a gynhelir.

Darpariaeth drosiannol — trefniadau derbyn ar gyfer addysg feithrin

7. Er bod paragraff 12(1), (3) i (5) o Atodlen 4 sy'n diwygio adran 98 o Ddeddf 1998 yn dod i rym, ni fydd y diwygiadau a wneir gan baragraff 12(3), (4) a (5) yn gymwys i flwyddyn ysgol sy'n gynharach na'r flwyddyn ysgol 2004 i 2005 mewn perthynas â derbyn plentyn i ysgol a gynhelir ar gyfer addysg feithrin.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

John Marek
24 Mawrth 2004 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

ATODLEN Erthyglau 4 a 5

RHAN 1

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2004

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 51 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 4 isod	Trefniadau derbyn — addysg feithrin
Adran 154	Sefydlu neu newid ysgolion meithrin a gynhelir
Adran 156	Ystyr ysgol feithrin ac addysg gynradd
Adran 198	Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 4, paragraff 12(1), (3) i (5)	Trefniadau derbyn — addysg feithrin
Atodlen 21	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Paragraff 98(2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	
Paragraff 115(5) ac eithrio is-baragraff (b)	
Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu —	Diddymiadau
Deddf Addysg 1996(**4**), yn adran 4(1) y geiriau “part-time education suitable to the requirements of junior pupils or”,	
yn adran 5(1) y geiriau “part-time education suitable to the requirements of junior pupils or”,	
yn adran 548(8), paragraff (c),	
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**), yn adran 33(1), y gair “and” ar ddiwedd paragraff (b), adran 39.	

RHAN 2

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Awst 2004

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 177	Ystyr “secondary education”

(**4**) 1996 p.56.
(**5**) 1998 p.31.

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu —	Diddymiadau
Deddf Addysg 1996, yn adran 2(3)(a) y geiriau "(including vocational, social, physical and recreational training)".	

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 31 Mawrth 2004 a 1 Awst 2004 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, mewn perthynas â Chymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru — gweler adran 211.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen —

Mae adran 51 ac Atodlen 4, paragraff 12(1), (3) i (5) yn diwygio adran 98 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Ddeddf 1998) er mwyn egluro mai'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir sy'n gyfrifol am dderbyn neu wrthod plant i'r ysgol ar gyfer addysg feithrin.

Mae adran 154 yn diwygio adran 28 o Ddeddf 1998 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i AALl gyhoeddi cynigion i sefydlu neu i wneud newidiadau rhagnodedig i ysgol feithrin a gynhelir.

Mae adran 156 yn diwygio'r diffiniad o "nursery school" yn adran 6 o Ddeddf Addysg 1996 (Deddf 1996), er mwyn darparu bod ysgol a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu addysg i blant rhwng dwy flwydd oed ac oed ysgol gorfodol, yn ysgol feithrin. Gynt yr oedd y diffiniad yn cyfeirio at ysgol a ddefnyddir yn bennaf i ddarparu addysg o'r fath. Mae adran 156 hefyd yn estyn y diffiniad o "primary education" yn adran 2 o Ddeddf 1996 i gynnwys addysg ran-amser sy'n addas i ofynion plant rhwng dwy flwydd oed ac oed ysgol gorfodol. Gynt yr oedd y diffiniad yn cyfeirio at addysg amser llawn yn unig.

Mae adran 198 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio cynlluniau i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r naill i'r llall.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen —

Mae adran 177 yn estyn y diffiniad o "secondary education" yn adran 2 o Ddeddf 1996 er mwyn cynnwys addysg sy'n cael ei derbyn yn rhannol mewn ysgol ac yn rhannol mewn sefydliad arall neu unrhyw le arall, ac er mwyn ei gwneud yn glir ei bod yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol ac adloniadol. Rhoddir y pŵer hefyd i Gynulliad